ARCHIF MENYWOD CYMRU
WOMEN'S ARCHIVE OF WALES

heritage treftadaeth
LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI

LLEISIAU O LAWR Y FFATRI / VOICES FROM THE FACTORY FLOOR

Ffatri Grysau Glanarad, Castell Newydd Emlyn (a ddaeth yn Myfanwy Products, ac yn ddiweddarach, Croydon Asbestos) 1945 – 1980au

Cyfwelai: **VSW020 Rita Davies & Meirion Campden**

Dyddiad: **27.1.14**

Cyfwelydd: **Susan Roberts ar ran Archif Menywod Cymru**

There is an English summary at the end of the Welsh text

Enw: Rita Davies (*nee* Woolley)
Dyddiad Geni: 29.10.31

Enw: Elizabeth Blodwen Meirion Campden (*nee* Jones)
Dyddiad Geni: 10.8.35

Rita
Cafodd Rita ei magu yn Garreg Wen, Bryndiodde, Castell Newydd Emlyn. Buodd yn byw yno nes ei bod hi'n saith mlwydd oed ac yna symudodd y teulu i Aberarad. Buodd yn byw yno nes ei bod hi'n priodi yn ddau ddeg a dwy mlwydd oed. Roedd ei thad yn gweithio yn ffatri laeth Cow & Gate yn Castell Newydd Emlyn. Buodd ei mam yn gweithio fel glanhawraig yn Ysgol yr Eglwys yng Nghastell Newydd Emlyn wedi i'w phlant dyfu'n hŷn. Roedd hi a'i chwiorydd yn mynd i'w helpu. Roedd yn un o ddeg o blant (buodd un farw'n fabi). Rita oedd yr hyna o'r pedwar lleiaf. Buodd i Ysgol Atpar, Sir Geredigion. Gadawodd yr ysgol yn un deg pedwar mlwydd oed. Roedd yn edrych ymlaen at adael yr ysgol.

Meirion
Ganed Meirion yn Saron. Roedd ei thad yn gweithio 'ar yr hewl'. Cafodd ei anafu yn ystod y rhyfel ac felly nid oedd yn rhwydd iddo i weithio. Rita oedd yr hena o dair chwaer. Buodd yn yr ysgol ym Mrynsaron a gadawodd yno yn un deg pedwar. Teimlai'n barod i adael yr ysgol.

Roedd gan Rita fodryb yn gweithio yn ffatri Glanarad ("y Pandy") a dywedodd ei mam wrthi am fynd i weithio gyda'i modryb. Aeth i weithio yno'n syth o'r ysgol a buodd yno tan iddi

briodi (yn 22 mlwydd oed). Bu adref am dair blynedd yn gofalu am famgu ei gŵr wedyn, ond aeth yn ôl i weithio'n y ffatri ar ôl hynny.

Roedd Meirion yn awyddus i fynd i'r 'ffatri wnïo' ar ôl iddi orffen yn yr ysgol. Dechreuodd Meirion yno tua dwy flynedd ar ôl Rita. Dywedodd Rita ei bod hi'n edrych ar fynd i ffatri fel arwydd ei bod yn dod i oedran, er taw plentyn oedd hi ar y pryd. Teimlai Meirion nad oedd llawer o ddewis ond mynd i'r ffatri. Y Glanarad Shirt Factory oedd enw'r ffatri'n swyddogol. Roedd ffatrïoedd gwlan i lawr ym Mhentrecwrt ond roedd Rita'n byw'n rhy bell oddi wrthynt i fynd i weithio ynddyn nhw. Roedd yn well gan Meirion fynd i'r 'ffatri wnïo' na'r ffatri wlan (a oedd yn gwneud carthenni.)

00.06.40: Mae Rita'n cofio mynd yno am y tro cyntaf a gweld y merched i gyd yn edrych arni, ond daethant yn ffrindiau mewn amser buan. Roedd tua tri deg yn gweithio yno ar y pryd. Roedd nifer o beiriannau yno a merched yn eistedd wrthynt, pob un a'i pheiriant. Roedd Johnny Morgan, 'y bos' yn cerdded o gwmpas. Enoc Davies oedd yr un a dorrai'r crysau allan. Merched oedd yn gweithio yno, ond daeth un bachgen atynt rhai blynyddoedd yn ddiweddarach i ddysgu'r gwaith o dorri allan ond buodd e ddim yno'n hir. Merched ifainc a 'hen' fenywod oedd yno. Roedd yn ffatri a oedd wedi'i sefydlu ers sbel cyn i Rita ddechrau yno.

Roedd 'y fenyw fach', Miss Young yn dangos i'r merched newydd beth oeddynt fod gwneud. Roedd ganddi ddigon o amynedd gyda'r merched, a byth yn rhoi 'row' iddynt. Un o Drefach, Felindre oedd hi. 'Hemo' oedd y job cyntaf byddai'r merched yn gwneud. Dim ond crysau gwlanen oedd y ffatri'n gwneud, ac ambell waith byddent yn gwneud crysau cotwm. Roedd y crysau gorffenedig yn cael eu danfon i bob man er mwyn cael eu gwerthu. Roedd warws JT Morgan yn Abertawe yn un o'r mannau gwerthu ar gyfer y crysau. J T Morgan oedd y perchennog. Yn anamal iawn y byddai ef yn dod i lawr o Abertawe i ymweld â'r ffactri. Ei frawd oedd yn 'fos' arnyn nhw yng Nghastell Newydd Emlyn. Hanner coron neu bum swllt oedd y cyflog pan ddechreuodd Rita. Roedd Rita'n cerdded i'r gwaith a Meirion yn dal y bws. Tua chwarter awr i ffwrdd o'r ffatri roedd Rita'n byw.

Roedd gwaith yn y bore'n dechrau am wyth o'r gloch ac yn gorffen am bump i Rita. Roedd yn cael tri chwarter awr o egwyl i ginio a byddai'n mynd adref. Byddai'n cael 'dished o de' am dri o'r gloch y prynhawn. Nid oedd brêc yn y bore.

Roedd Meirion yn mynd â chinio i'r gwaith. Byddent yn cael te am ddim yn y gwaith. Pan ddechreuodd hi'n y gwaith ymgyfarwyddo gyda'r peiriant oedd y cam cyntaf. Ar ôl hynny byddai'n gwnïo hems, ac yna'n gwneud y crysau. Roedd yn ennill hanner can ceiniog fel 'flat rate' ar y dechrau, ac ar ôl dod yn gyfarwydd â'r gwaith yn ennill arian ar sail gwaith ar dasg (piece work). Roedd y cyfnod hyfforddi hwnnw yn cymryd mis. Ar ôl hynny byddai'n ennill dwy i dair punt yr wythnos.

Mam Rita oedd wedi cael swydd iddi trwy fynd i ofyn i Johnny Morgan. Roedd ei Anti May wedi bod yn gweithio yno ers blynyddoedd a chred Rita bod hyn wedi ei helpu i gael y swydd. Hi oedd yn gwneud dillad i Rita pan oedd hi'n fach.

Roedd mam a thad Meirion yn nabod Miss Young (yn perthyn o bell) ac aethant i lawr i siarad â hi, a dyna sut cafodd hi waith yn y ffatri. Nid oedd angen cael cyfweliad neu unrhyw fath o brawf cyn cael gwaith.

Roedd Rita'n hapus ei bod yn gweithio'n 14 mlwydd oed, er mwyn iddi gael arian i roi i'w mam. Roedd Rita yn rhoi ei chyflog i gyd i'w mam, ac yna'n cael hanner coron o arian poced yr wythnos. Arian poced byddai Meirion yn cael hefyd. I'r sinema roedd y ddwy ohonynt yn mynd pan oeddynt yn mynd allan. Byddai Meirion yn cerdded yno (i Drefach, Felindre) er mwyn peidio gorfod talu arian bws, ac weithiau byddai'r offer yn yn sinema yn torri lawr.

Roedd y ffatri yn eithaf swnllyd achos y peiriannau ond daeth Rita a Meirion yn gyfarwydd â hyn yn gyflym. Pan gafodd y ffatri ei chymryd drosodd gan Croydon Asbestos roeddynt yn gwrando ar y 'wireless' wrth wneud eu gwaith.

Nid oedd y merched yn cael siarad wrth weithio. Roedd Johnny Morgan yn cerdded o gwmpas ac yn bwrw'r merched ar eu pennau os oeddynt yn siarad. Yn ôl Meirion roedd yn pinsho hefyd, ac nid oedd pwynt ateb yn ôl – roedd yn rhaid iddynt wrando.

00.16.35: 'O'dd parch 'da chi ato fe.'

Tyllau ar gyfer botymau buodd Rita yn gwneud fwyaf ar y 'mashin bwtwn'. Roedd yn mwynhau'r gwaith yma achos roedd yn golygu nad oedd yn gorfod bod ar 'piece work.

Roedd Meirion yn 'gwneud y cryse' – gwneud y gwddf, hemo, y llewysau a'r cyffs. Hemo roedd hi'n mwynhau gwneud fwyaf, achos bod e'n rhwyddach.

Er mwyn cofnodi faint o waith roedd y merched wedi'i wneud roedd ganddynt lyfr. Daeth byth dynion yno i weithio. Dros y blynyddoedd roedd y nifer o weithwyr wedi gostwng o 30 i 10. Ar ôl J T Morgan, cymerwyd y ffactri drosodd gan Myfanwy Product o Gorseinon a dillad doliau oedd yn cael eu gwneud ar y pryd, ac roedd y cyflog yn dda. Aeth y perchennog yn dost a chymerwyd y ffactri drosodd eto – y tro hwn gan Croydon Asbestos. Unwaith eto, roedd y merched ar 'piece work' a chafodd y merched wybod nad oeddynt yn gwneud yn ddigon da yn gwnïo'r menyg lledr i fod ar 'piece work'. Newidiwyd y peiriannau i beiriannau diwydiannol.

Yn ogystal â dilliad doliau buon nhw hefyd yn gwneud sioliau Cymreig i Myfanwy Products. Tua dwy neu dair blynedd parodd y fenter honno. Pan ddaeth Croydon Asbestos yno, daeth tua dwy neu dair mwy o ferched i weithio yno. Aeth rhifau'r gweithwyr lawr – achos nid oedd y gweithwyr yn hoffi'r gwaith, yn ôl Rita. Roedd gwnïo'r lledr yn waith caled, trwm. Roedd yn well gan rai merched weithio'n y ffatri laeth cyfagos, neu mewn siopau oherwydd bod y gwaith yn ysgafnach, er nad oedd yr arian yn fwy yn y llefydd yma.

Nid oedd undeb yn y ffatri, na sôn am unrhyw broblemau. Roedd Rita a Meirion yn 'hapus' gyda'u hamodau gwaith.

Golau trydan hir ('strip lights') oedd yn goleuo'r ffatri. Roedd hi'n gallu bod yn oer yno, yn enwedig yn y boreuau. Roedd gwres yno – stôf lawr llawr yn twymo'r pibau – ond roedd y ffatri yn un eithaf fawr. Ambell fore nid oedd y pibau wedi twymo digon ond dywedodd Rita, 'o'n i'n dod i ben â hi'. Gwisgai Rita a Meirion trowsus i'r gwaith, yn arbennig yn y gaeaf achos yr oerfel. Nid oedd gwisg yn cael ei darparu o gwbl. Nid oedd y gwaith yn frwnt fel y cyfryw, ar wahan i fflwff yn mynd ar y dillad, ac roedd y merched yn gyfrifol am gadw eu peiriant a'u lle eu hunain yn lan. Ar ddydd Gwener, roedd y merched yn cael stopio gwaith awr yn gynt er mwyn cael amser i lanhau'r peiriannau. Roedd y merched ifainc yn

glanhau'r peiriannau ar gyfer y rhai hŷn, oherwydd nid oedd y merched hŷn yn gallu mynd lawr ar y llawr. Roedd y rhai hŷn hefyd yn helpu'r rhai ifanc. Mae Rita yn cofio hyn – Mrs Tomos Pentrecagal yn gwnïo crys fach ychwanegol i Rita er mwyn iddi er mwyn iddi gael 'pai bach neis i fynd gartre'.

00.27.10: 'O'dd yr hen fenywod bach yn dda.'

O ran y diwrnod gweithio, dywedodd Meirion y byddai'n cymryd ei lle y tu ôl i'r peiriant wnïo a byddai pob dim yno'n barod iddi sef y darnau ar gyfer y crysau, a byddai 'penne lawr drw'r dydd'. Bydden nhw'n cael 'clonc fach' amser cino – pob un o gwmpas y ford.

Fel Glanarad roedd y ffatri yn fwy strict. Roedd Mr Morgan a'i wraig, Mrs Morgan yn gweithio yno. Roedd hi'n gwnïo ac yn cadw llygad ar y merched.

Dywedodd Meirion amser roedd y ffatri o dan reolaeth Croydon Asbestos cafai'r merched deg munud o frêc yn y bore, hanner awr i ginio a deg munud o egwyl am dri o'r gloch hefyd. Roedd y peiriannau yna'n fwy swnllyd na'r rhai a ddefnyddiwyd gan Glanarad.

Dywedodd Rita ei bod hi'n arfer gorffen y gwaith pan ddechreuodd hi yna gynta am bump o'r gloch. Yna newidiwyd yr amser gorffen i chwarter i bump, a nos Wener am hanner awr wedi pedwar.

Dywedodd Meirion pan ddechreuodd weithio yno'n gyntaf dim ond dydd Nadolig a Gwyl San Steffan roedd hi'n cael i ffwrdd o'r gwaith. Roedd hi'n gorfod gweitho ar Ionawr y cyntaf. Ond gydag amser newidiodd hyn.

00.29.46: Dywedodd Meirion am y rheolaeth yn Glanarad,
'Roedd yr oes bryd 'nny mwy strict na nawr. Ma'r bosys nawr, y blynydde diwetha hyn yn gorfod watsho beth ma' nhw'n gweud wrth y staff. Ma' pethe wedi altro.'

Er eu bod yn strict teimlai Rita a Meirion eu bod yn gyflogwyr teg. Cawsant anrheg ganddynt bob Nadolig. Roeddynt yn cael dewis o warws J T Morgan yn Abertawe (roedd y warws hefyd yn gwerthu i'r cyhoedd), 'rhyw pîlyn o ddillad' oddi ar restr y cwmni. Hefyd, roedd trip gan y gwaith bob mis Mehefin i Llandrindod. Mae Rita'n cofio cael ffrog fel anrheg. Mae Meirion yn cofio cael sgert, ymbrela, a bag.

Ar y trip i Landrindod roedd y cwmni'n talu am y bwyd. Ar ôl cyrraedd Llandrindod byddent yn mynd i gael te. Cawsant ginio tri chwrs amser cinio, a chael 'dished o de' cyn dod adref. Roedd y prynhawn off ganddynt i wneud fel yr hoffent. Roedd llyn yno gyda chychod arni.

00.32.16: Dywedodd Rita,
'O'n i fel gwydde yn gwichan (ar y cychod).'

I Landrindod oedd y trip bob blwyddyn, ond un flwyddyn aethant i Gastell Nedd.

J T Morgan a Johnny Morgan oedd yn trefnu ac yn talu am y trips. Roedd y cwbl yn ystod y trip yn rhad ac am ddim i'r gweithwyr. Nid oedd parti na dawns amser Nadolig trwy'r gwaith, ond roedd y merched yn trefnu rhywbeth eu hunain i rywle fel y Coopers yng Nghastell Newydd Emlyn.

Mae Rita a Meirion yn pwysleisio pa mor hapus roeddynt yn gweithio'n y ffatri.

Mae Rita'n credu oedd gwneud y tyllau ar gyfer y botymau'n eithaf rhwydd.

Nid oedd Rita na Meirion byth yn prynu dim byd o'r ffatri. Roedd siopau'n dod i ôl cynnyrch o'r ffatri, a siopau'n archebu hyn a hyn o grysau.

Fynycha byddai merched yn gorffen gweithio'n y ffatri pan roeddynt yn disgwyl babi, ond deuai rhai ohonynt yn ôl ar ôl geni os oedd ganddynt rywun i warchod y plentyn (yn ôl Meirion.) Nid yw Rita yn cofio neb yn disgwyl babi yn ystod y cyfnod roedd hi yno, 'o'n nhw'n ferched da i gyd'.

Nid oedd llawer o'r merched yno â phlant bach. Roedd un fenyw o Dde'r Affrig yn dod a'i chroten (tua deg mlwydd oed) i'r gwaith gyda hi, ac roedd y ferch yn gorfod eistedd ar y ffenest yn aros i'w mam.

Cawsant godiad cyflog yn rheolaidd, 'fel o'dd e fod'. Roedd y cyflog yn cael ei ddosbarthu ar lawr y ffatri – byddai'r amlen fach frown yn cael ei rhoi ar y peiriant ar nos Wener.

00.38.39: Roedd Rita yn 'thrilled to bits'.

Roedd y merched hŷn yn ennill mwy o arian achos roeddynt yn gallu gwnïo'n gynt. Os nad oedd rhywun yn teimlo'n hwylus yn y gwaith roedd y gwaith (a'r cyflog felly) yn cael ei effeithio.

Roedd y rheolwyr yn caniatáu amser i ffwrdd o'r gwaith am rywbeth fel angladd, ond wrth gwrs nid oedd y gweithiwr yn cael ei dalu am hyn, ac roedd pythefnos o wyliau yn ystod mis Awst (a chyflog yn cael ei dalu am y cyfnod hwn) wedi cael ei gyflwyno rhywbryd.

Roedd angen i'r merched clocio mewn a chlocio allan, ac roedd hyn yn bwysig i'r rheolwr er bod y merched ar 'piece work'. Nid oedd y merched byth yn mynd â mwy na chwech crys ar y tro i wnïo. Os nad oedd y coler yn eistedd yn iawn ar ôl gwnïo'r crys, roedd rhaid ail neud y gwaith. Miss Tomos oedd yn siecio'r gwaith. Hi hefyd oedd yn plygu'r crysau, a'u smwddo nhw. Pan nad oedd digon o waith gan Rita yn gwneud y tyllau botwm byddai'n mynd i helpu Miss Tomos i smwddo.

Roedd rhif gan y gweithwyr, ac roedd y rhif yna'n mynd ar y crysau felly roedd modd gwybod pwy oedd wedi gwneud pa grys. Rhif 11 oedd Rita, a Rhif 5 oedd Meirion. Ni chafodd Rita na Meirion gwaith yn ôl i gwiro'n aml, ond os oedd Meirion yn cael crysau'n ôl roedd y ddwy fenyw hŷn y naill ochr iddi'n ei helpu.

00.42.50: O ran y berthynas rhwng y rheolwyr a'r gweithwyr dywedodd Rita, 'Roedd pob un yn gysurus 'na a neb yn ateb yn ôl.'

Gwnïodd Rita ei bys sawl gwaith – ar ddamwain! - er nad oedd yn cyfaddef bob tro bod hyn wedi digwydd rhago ofn ei bod hi'n cael stwr. Gwnïodd Meirion ei bys hefyd – fe dorrodd nodwydd yn ei bys unwaith a gorfu iddi fynd i ysbyty Glangwili, gyda'r nodwydd dal ynddo. Roedd doctor Llandysul wedi trio cael y nodwydd allan eisoes ond wedi methu. Roedd Meirion eisiau cadw'r nodwydd ond ni chafodd achos roedd yn mynd mewn i'r ffeils. O

ganlyniad i'r ddamwain cafodd Meirion diwrnod off o'r gwaith ac fe gafodd ei thalu ond mae'n nodi 'roedd gofyn bod y meddwl ar y mashîn o hyd.' Os oedd y merched yn cael cwt ar y bys nad oedd angen ei drin gan y meddyg defnyddient Elastoplast a chario ymlaen i weithio.

Nid oedd rheolau'n y gwaith fel y cyfryw, ond eu bod yn dechrau'r gwaith am wyth o'r gloch y bore ac yn gorffen am bump. (Wedi dweud hyn, nid oedd siarad yn cael ei ganiatáu er mwyn sicrhau bod y merched yn canolbwyntio ar eu gwaith a thrwy hynny'n osgoi damweiniau.) Nid oedd angen i Johnny Morgan ddweud dim byd wrth y merched, dim ond eu tapio ar eu pennau gyda'i bensil.

Roedd y cyfleusterau'n lan. Miss Tomos oedd yn glanhau'r toiledau. Nid oedd sôn am Iechyd a Diogelwch yn y ffatri. Pan drodd y ffatri yn Croydon Asbestos roedd mwy o wyliadwriaeth – roedd dau ddyn o'r ffatri'n Aberdaugleddau'n cadw llygad ar y merched. Daeth rheolwraig wedyn, o'r enw Sylvia. Roedd y peiriannau diwydiannol yn fwy trwm, ac ar y dechrau roedd y merched wedi blino'n lan ar ôl eu defnyddio. Roedd rhai o'r merched wedi syrffedu'r â'r gwaith newydd hwn ac wedi gadael. Roedd y lledr yn galed ar y bysedd, ac roedd y merched yn ymgyfarwyddo ar ôl sbel fach. Dywedwyd wrth y y merched yng Nghastell Newydd Emlyn nad oeddynt yn delio ag asbestos, ond taw'r ffatri yn Aberdaugleddau oedd yn gwneud hyn.

Roedd y sawl a oedd yn ysmygu'n mynd lawr i'r tai bach i wneud hynny. Nid oes sôn gan y merched am yr un tynnu coes a glywir amdano'n ffatrïoedd eraill, er enghraifft pan roedd rhywun yn priodi.

00.52.51: Dywedodd Rita,
'O'n i gyd bach yn hen ffasiwn 'na, weden i'.

Roedd perthynas dda rhwng y merched yn y ffatri a staff warws J T Morgan. Roedd un bachgen yn dod i lawr atyn nhw o Abertawe ac roedd y merched i gyd yn eu ffansio. Ond ni ddaliodd unrhyw un o 'ferched Pandy' ef.

Buodd Rita'n y ffatri am naw mlynedd y tro cyntaf (o 1945-1954). Gorffennodd yno ar ôl priodi er mwyn gofalu am famgu ei gŵr. (Aeth yn ôl yno ar ôl tair blynedd).

Dechreuodd Meirion yno pan roedd yn un deg pedwar ac arhosodd yno nes ei bod hi'n ei chwedegau. Yn y diwedd gadawodd hi yno achos bod ei gŵr yn dost. Aeth i lawr i Aberdaugleddau i roi ei notis, ac fe lefodd ar ôl dod allan. Caeodd y ffatri mewn tua blwyddyn ar ôl hynny beth bynnag.

Roedd Rita a Meirion yn nabod ei gilydd o bell trwy'r capeli cylch cyn iddynt fynd i weithio'n yn y ffatri, lle daethant yn ffrindiau pennaf. Maent wedi aros yn ffrindiau mynwesol ar hyd y blynyddoedd ac maent yn mynd i bob man gyda'i gilydd nawr.

Pan aeth Rita yn ôl i'r ffatri ar ôl tair blynedd nid oedd llawer wedi newid. Roedd y staff mwy neu lai yr un peth. Cyn mynd nôl i'r gwaith, teimlai Rita ei bod hi yn y tŷ drwy'r dydd ar ei phen ei hun (nid oes ganddi blant ac roedd ei gŵr hi'n y gwaith drwy'r dydd). Aeth i siarad â Mr Morgans yn y ffatri a gofyn am ei swydd yn ôl.

Nid oedd sustem o shiffts yn y ffatri, dim ond y shifft dydd. Nid oedd gwaith achlysurol ychwanegol ar ddydd Sadwrn yn y ffatri hon, na gweithio gor-amser yn ystod yr wythnos. Nid oedd cantîn yn y ffactri, dim ond 'tegell'. Ar ôl iddi briodi roedd Rita'n mynd â brechdanau i'r gwaith, ac yn pigo mewn i weld ei mam a'i thad amser cinio. Weithiau byddai Meirion yn mynd gyda hi.

O dan Croydon Asbestos roedd y ffatri yn cau lawr ar gyfer gwyliau mis Awst.

01.02.30: Mae Rita'n cofio'r ffatri'n mynd ar dân. Roedd y gweithwyr i gyd wedi mynd adref a chafodd Rita galwad ffôn i ddweud bod y ffatri ar dân. Ni ddarganfuwyd pwy oedd wedi dechrau'r tân ond roedd tŷ ar bwys y ffatri a dau grwt ifanc yn byw ynddo. Digwyddodd hyn tua 1961. Ni losgwyd llawer gan y tân a chafodd y merched mynd nôl i wnïo ar ôl pythefnos. Roedd Rita'n eithaf 'fflat' pan glywodd am y tân ond ni chollodd y gweithwyr arian oherwydd bod y ffatri ar gau.

Roedd Rita a Meirion yn mwynhau pob agwedd o'r gwaith. Nid oedd gwahaniaeth ganddynt weithio ar raddfa 'piece work', ond roedd llai o bwysau arnynt pan gymerodd Croydon Asbestos drosodd a'u talu ar raddfa 'flat rate'. Roedd yn dal rhaid iddynt gyrraedd eu targedi.

Gorffennodd Rita pan oedd yn chwech deg mlwydd oed. Roedd ei gŵr wedi ymddeol yn gynnar felly penderfynodd gorffen yn y ffatri er mwyn bod adref gyda fe. Roedd hi'n gweld eisiau'r merched ac yn galw mewn i'r ffatri i'w gweld nhw weithiau.

01.07.53: Mae Rita'n teimlo na fyddai wedi hoffi mynd o un swydd i'r llall. Ar ôl gorffen roedd Rita'n gwnïo pethau bach iddi'i hun adref.

Dim ond tua chwech oedd yn gweithio yno erbyn bod Meirion yn gorffen yn y ffatri. Roedd Rita a Meirion yn dyfalu bod y ffatri'n mynd i gau achos roedd rhif y gweithwyr yn gostwng.

Roedd sawl un o'r merched a weithiai'n y ffatri'n dod o Saron. Teithient i'r gwaith ar y bws. Roedd eraill yn dod o Fryngwyn a Beulah. Er bod Rita a Meirion wedi bod yn y ffatri dros gyfnod hir a wedi cynhyrchu nwyddau gwahanol nid ydynt yn teimlo eu bod wedi gweld llawer o newidiadau. Gwnïo oedd y gwaith ond bod y nwyddau wedi newid. Nid oedd y gweithwyr wedi newid llawer chwaith. Roedd y rheolwyr wedi newid wrth gwrs, gyda'r ffatri yn newid dwylo. Nid oedd y Saeson 'mor agos atoch chi'.

01.12.15: Mae Rita yn disgrifio'i lluniau.

Roedd Johnny Morgan yn byw yn Aberarad. Roedd yn frawd i J T Morgan ac roedd gwraig Davies y 'cutter' yn chwaer iddyn nhw. Roedd lot o gysylltiadau teuluol o fewn y ffatri. Roedd staff Glanarad yn dod i nabod staff J T Morgan dros y blynyddoedd wrth fynd ar y trip blynyddol gyda nhw.

O Lambed neu Llansawel roedd y brodyr Morgan yn dod. Nid oedd partis os oedd aelod o staff yn gadael ond roeddynt yn cael cloc yn anrheg.

Buodd ffatri yn Llandysul a buodd ffatri'r 'Cambrian' i lawr yn Nrefach.

Bedyddwyr oedd J T Morgan a'i frawd. Roeddynt yn eithaf crefyddol. Pan roedd Rita'n mynd allan byddai'n mynd i'r gwaith yn ei 'rolars' a 'tyrban' ar ei phen a byddai Johnny Morgan yn gofyn iddi ble roedd hi'n mynd. Byddai'n dweud wrtho taw i'r 'cwrdd' roedd hi'n mynd. Cymry Cymraeg oedd y brodyr Morgan, er bod gwraig J T Morgan yn siarad tipyn o Saesneg. (Ei ail wraig oedd hi – bu farw'r wraig gyntaf.) Roedd hi'n 'real lêdi'. Aeth Rita a Meirion ar drip gyda'r gweithwyr i lawr i dŷ "posh" J T Morgan a'i wraig yn Sgiwen (?) a chael bwyd yno.

English summary

Glanarad Shirt Factory, Castell Newydd Emlyn (which became Myfanwy Products, and subsequently, Croydon Asbestos) 1945 – 1980s

Interviewees: VSW020 Rita Davies & Meirion Campden

Date: 27.1.14

Interviewer: Susan Roberts on behalf of Women's Archive of Wales

Rita confirms her name (*nee* Woolley), address and date of birth as: 29.10.1931

Meirion confirms her name (*nee* Jones), address and date of birth as: 10.8.1935

Rita
Rita was brought up at Garreg Wen, Bryndiodde, Castell Newydd Emlyn. She lived there until she was 7 when the family moved to Aberarad. She lived there until she married at 22. Her father worked at the Cow & Gate milk factory in Newcastle Emlyn. When her children were older, Rita's mother was a cleaner at Ysgol yr Eglwys in Newcastle Emlyn. Rita and her sisters went with her to help. She was one of 10 children (one died in infancy). Rita was the oldest of the 4 youngest. She attended Ysgol Adpar, Sir Geredigion. She left school at 14.

Meirion
Meirion was born in Saron. Her father worked on the road. He was injured during the war and so it wasn't easy for him to work. She was the oldest of 3 sisters. She attended school in Brynsaron and left at 14.

Rita had an aunt who worked at Glanarad factory (the Pandy), where Rita went to work when she left school until she married at 22. She then stayed at home for 3 years nursing her husband's grandmother before returning to the factory.

Meirion wanted to work in the sewing factory when she left school. She started work there 2 years after Rita. Although she was still a child, Rita regarded working in a factory as a sign she'd come of age. Meirion felt there was no option other than to work in the factory. Glanarad Shirt Factory was its official name. There were woollen factories in Pentrecwrt but Rita lived too far away to be able to work there. Meirion preferred to work in the sewing factory as opposed to the woollen factory, which made Welsh blankets.

00.06.40: Rita recalls her first day, being stared at by all the girls who soon became her friends. There were approx. 30 working there at the time. There was a machine for each girl. Johnny Morgan, the boss, would stroll around. Enoc Davies cut-out the shirts. The workforce was all female – young girls and old women, - but one lad joined them some years later to learn how to cut-out, but he didn't stay for long.

The new girls were shown what to do by Miss Young from Drefach, Felindre. She had plenty of patience, and never gave anyone a telling off. The first job to learn was hemming. The factory made flannel shirts (and sometimes, cotton). The finished shirts went all-over to be sold. One such place was JT Morgan's warehouse in Swansea. (JT Morgan was the owner, but he rarely visited the factory). His brother (Johnny) was the boss at Newcastle Emlyn. Rita was paid ½ a crown when she started. Rita walked to work (she lived ¼ mile from work) while Meirion caught a bus.

Work started at 8am and finished at 5pm. There was a ¾ hour break for lunch (Rita went home) and a tea break at 3pm. There was no mid-morning break.

Meirion took a packed lunch to work. Tea was provided.

Meirion's first task was to get used to her machine. Then she could sew hems and make shirts. She earned 50 pence as a flat rate until she became more familiar with the work, when she was put on piece work. The initial training took a month- after that she earned £2 or £3 a week.

Rita's mother secured the job for her by asking Johnny Morgan about work for her daughter. Her Aunty May, who had made all of Rita's clothes when she was a little girl, had worked at the factory for years. Rita believes this helped her get the job.

Meirion's parents knew Miss Young (distantly related) and their approach to her resulted in Meirion being given work at the factory. There was no formal interview or test.

At 14, Rita was happy to be working and earning money to give to her mother who gave her ½ crown as pocket money. Meirion also received pocket money and they both frequented the cinema in Drefach, Felindre.

Rita and Meirion soon got used to the noise of the machines. When the factory was taken over by Croydon Asbestos, the workers listened to the "wireless."

The girls weren't allowed to talk while they worked. Johnny Morgan walked around and tapped girls on the head if they were talking. According to Meirion, he pinched girls as well – answering back was futile, they just had to listen.

00.16.35: 'You respected him.'

Rita's main task was making button holes on the button machine, which she enjoyed because it meant she wasn't on piece work.

Meirion made shirts – the neck, hemming, the sleeves and cuffs. She preferred hemming because it was easier.

There was a book in which the girls' work was recorded. Men never came there to work. Over the years, the workforce reduced from 30 to 10. The factory was taken over by Myfanwy Products from Gorseinon who made dolls' clothes at the time – the wages were good. The owner fell ill and the factory was taken over by Croydon Asbestos. Once again, the girls were on piece work. Then they were told that their work (sewing leather gloves) wasn't good enough for them to be on piece work and the machines were replaced with industrial machines.

Myfanwy Products also made Welsh shawls (this enterprise lasted 2 or 3 years). When Croydon Asbestos came, 2 or 3 new girls started work. But the numbers of workers dwindled because people didn't like the work – sewing leather was hard, heavy work. Some girls preferred to work in the nearby milk factory or in shops because the work was lighter, even though the wages weren't any better.

There were no unions at the factory – and no problems either. Rita and Meirion were happy with conditions.

The factory was lit with strip lighting. It could be very cold especially in the mornings and during the winter months. Rita and Meirion wore trousers to combat the low temperature. The work wasn't especially dirty. On Fridays, work finished an hour early to give the girls time to clean their machines. The younger girls helped clean the older women's machines and in return the older workers would sometimes do extra sewing for the girls to ensure their pay packets were topped up.

00.27.10: 'The little old ladies were good.'

Meirion remembers she'd arrive at her machine and everything would be there ready for her to begin work. It was "head down" all day then, and a good chat 'round the table at lunchtime.

It was quite strict at Glanarad - the bosses wife worked as a sewer so that she could keep an eye on the girls.

As Croydon Asbestos there was a 10 minute break in the morning, ½ hour for lunch and another 10 minutes at 3pm. The machines were noisier than those used by Glanarad.

Rita remembers finishing work at 5pm. That time changed to 4.45pm with Fridays finishing at 4.30pm

Meirion recalls that the only holidays were Christmas Day and Boxing Day – she had to work on 1st January. With time, things changed.

00.29.46: Meirion talks about the management at Glanarad,

'Things were stricter in those days. Bosses nowadays have to be careful what they say to staff. Things have changed.'

Though strict, Rita and Meirion think their employers were fair. They received a present every Christmas. They could choose some clothing from JT Morgan's warehouse in Swansea. There was also an annual works' outing every June to Llandrindod Wells. Rita remembers getting a dress as a gift. Meirion remembers receiving a skirt, umbrella and a bag.

On the Llandrindod trip, the company paid for food. On arrival they'd have tea. Then they'd have a 3 course lunch and a cup of tea before returning home. The afternoon was free.

There was a boating lake at Llandrindod.

00.32.16: Rita said:
'We were cackling like geese on the boats.'

One year they went to Neath.

The trips were arranged and paid for by J T Morgan and Johnny Morgan. The workers didn't pay for anything. There was no Christmas dance or party but some of the girls arranged a night out to somewhere like the Coopers in Newcastle Emlyn.

Both Rita and Meirion have emphasised how very happy they were working in the factory.

Neither of them ever bought anything from the factory.

Usually, when expecting a baby, girls finished work. According to Meirion, some girls returned to work after the birth. Rita doesn't remember anybody expecting a baby: "They were all good girls."

A worker from South Africa used to bring her 10 year old girl to work with her.

"As it should be," they had regular pay rises. The wages were distributed on the factory floor – the little brown envelope was placed on the machines on Friday night.

00.38.39: Rita was 'thrilled to bits'.

The older girls earned more because they could sew faster. If someone wasn't feeling too well, work suffered (along with the wages.)

Time off (without pay) was permitted for a funeral. A paid holiday in August was introduced at some point.

The girls were required to clock on and off – this was still important in the eyes of management even though the girls were on piece work. Nobody took more than 6 shirts to sew at any one time. If the collar didn't sit properly then it had to be re-sewn. Miss Thomas checked the work – it was she who also folded and ironed the shirts. When Rita didn't have enough work making buttonholes she'd help Miss Thomas with the ironing.

The girls all had an individual number which was attached to the shirts so it was possible to see who had made each shirt. Rita was no. 11, Meirion was no. 5. Neither had much work returned to be re-done. But if Meirion ever had shirts returned, the 2 older women on either side of her would help.

00.42.50: Rita said (re: the relationship between managers and workers) 'Everyone was comfortable there – and nobody answered back."

Rita "sewed" her finger many times, but she didn't always own up to avoid a telling off. Meirion did the same – and once a needle broke off in her finger and she was taken to Glangwili hospital to have it removed. (The doctor in Llandysul had already tried and failed to remove it.) Meirion wanted to keep the needle, but couldn't as it had to be filed. As a result of the accident, Meirion had a day off from work (paid) but she remarked: "**you had to keep your mind on the machine all the time.**" If the girls had cuts that didn't need treatment from a doctor, they covered them with Elastoplast and carried on working.

Work started at 8 and finished at 5. There were no rules as such, however, talking was forbidden to ensure the girls concentrated on their work and avoided accidents. Johnny Morgan didn't need to say anything – he just tapped the girls on their heads with his pencil.

The facilities were clean. Miss Tomos cleaned the toilets. There was no sign of health and safety, but when Croydon Asbestos took over, there was more safety care. 2 men from the Milford Haven factory came to keep an eye on the girls. The, manager (Sylvia) was brought in. The industrial machines were heavier and the girls tired as they worked. Some didn't like the new work and left. The leather work was hard on the fingers, but the girls got used to it after a little while. The girls in Newcastle Emlyn were assured that they weren't handling any asbestos, unlike the factory in Milford Haven.

Smokers smoked in the toilets. Unlike in some other factories, there was not much leg-pulling at the factory.

00.52.51: Rita: 'We were all a little bit old fashioned, I suppose.'

The factory girls and the staff at JT Morgan's warehouse had a good relationship. One lad who used to come down from Swansea was fancied by all the "Pandy Girls" even though not one of them managed to "catch" him.

Rita worked at the factory for 9 years initially (1945-1954). She left when she married, and returned 3 years later.

Meirion started aged 14, and worked there into her sixties. She eventually left because her husband was ill. She travelled to Milford Haven to give her notice, and cried on the way out. The factory closed within a year in any case.

Before working together at the factory and becoming best friends, Rita and Meirion knew of each other through the local chapels. They've remained lifelong friends and go everywhere with each other.

When Rita returned to the factory after her 3 year absence, nothing much had changed. She'd felt "stuck" in the house on her own all day and went to see Mr Morgan and asked for her old job.

There were no shifts at the factory – only the day shift. There was no extra casual Saturday work and no overtime. There was no canteen – just a kettle. After she was married, Rita took sandwiches to work and called in with her parents at lunchtime. Sometimes, Meirion went with her.

As Croydon Asbestos, the factory closed down for a holiday every August.

01.02.30: Rita remembers a fire at the factory circa 1961. She received a phone call after work one night informing her that the factory was on fire. There wasn't too much damage caused and the girls were back sewing in a fortnight. Rita felt flat when she heard about the fire, but nobody lost wages because of the temporary closure.

Rita and Meirion enjoyed all aspects of the work. They hadn't minded doing piece work but felt less pressure when they were paid a flat rate by Croydon Asbestos. (They still had to hit their targets.)

Rita finished at the factory when she was 60. Her husband had retired early and she wanted to be at home with him. She missed the girls and called in at the factory to see them from time to time.

01.07.53: Rita doesn't think she would have liked going from job to job. After retiring, she sewed small items for herself at home.

When Meirion finished at the factory, there were about 6 workers left and she and Rita guessed that closure was imminent.

Many of the girls at the factory were from Saron. They travelled to work on the bus. Others came from Bryngwyn and Beulah. During their long years at the factory, making a variety of products, Rita and Meirion don't think they witnessed much in the way of change. The management changed with changing ownerships and Rita and Meirion believe that English managers weren't as warm/friendly.

01.12.15: Rita describes her photographs.

Johnny Morgan lived in Aberarad. He was JT Morgan's brother and their sister was Davies the cutter's wife. There were many family connections inside the factory. Over the years, the Glanarad staff got to know JT Morgan staff through their joint annual trips.

The Morgan brothers were from Lampeter or Llansawel. There weren't leaving parties but a clock would be presented as a leaving present.

There was a factory in Llandysul and the Cambrian factory down in Drefach.

Johnny and JT Morgan were Baptists. They were quite religious. When Rita was going out for the evening she'd go to work that day with her hair in rollers and covered with a turban. When Johnny Morgan asked her where she was going, she'd tell him she was going to a

chapel meeting. The Morgans were Welsh speaking even though JT's wife tended to speak English. She was regarded as a real lady. (She was his second wife – his first wife had died.) Rita and Meirion went on a trip with the workers down to JT Morgan and his wife's posh house in Skewen (?) to have a meal.